


Tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd

Disgrifiad o ddau fodel trawsgwricwlaidd a ellir eu defnyddio i ddysgu disgyblion Blwyddyn 2.

Model Thema Seiliedig

'Theme-based approaches use a theme to generate exploration through the eyes of several different subjects' (Barnes, 2015, t. 69). Dewisais y thema 'lechyd Da' sy'n gallu hwyluso amryw Faes Dysgu o fewn y cwricwlwm Newydd yng Nghymru.



(Barnes, 2015)

Anfanteision

-Ofsted (2002) yn nodi fod dysgu'n drawsgwricwlaidd yn galluogi datblygiad sgiliau ar draws nifer o themâu, nid yw'r model yma yn galluogi hyn gan fod dim ond un thema sy'n cael eu defnyddio.

-Gall cysylltiadau dawnus atal addysgeg effeithiol.

Manteision

-Mae mwy nag un sgil o fewn o fewn mwy nag un pwnc yn cael eu datblygu ar unwaith.

-Gall casglu adnoddau perthnasol i bara dros gyfnod o amser.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (Donaldson, 2015).

-Dysgwyr yn 'datblygu dealltwriaeth o'r peryglon a geir yn y cartref a'r amgylchedd sydd y tu allan iddi' wrth gynnal trafodaeth grŵp yn trafod pwysigrwydd o sut i drin offer mân yn ddiogel wrth greu salad ffrwythau yn ogystal â gallu trafod pam mae hylendid bwyd yn bwysig.

-Dysgwyr yn 'datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod ymarfer corff a hylendid a'r mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig er mwyn cael corff iach' (YAAS, 2015) wrth ymchwilio i'r hyn dylent a ni ddylent wneud er mwyn fod yn berson iachus a'i 'chofnodi data a gesglir mewn amrywiaeth o fformatau priodol' (Llywodraeth Cymru, 2014).

Datblygiad Mathemateg.

-Dysgwyr yn 'defnyddio plattfform cydweithio ar-lein i greu neu i olygu ffeil, e.e. prosesu geiriau, rhaglenni cyflwyno, taenlenni' (Llywodraeth Cymru, 2016) I nodi pa ffrwythau a llysiad sydd fwyaf poblogaeth o fewn y dosbarth o fewn taenlen.

-Dysgwyr yn 'canfod haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol' wrth dorri ffrwythau i greu salad ffrwythau.

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

-Dysgwyr yn 'gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth newydd am y pwnc' wrth wneud tasg darllen a deall ar bwysigrwydd bwyta'n iach. Byddent yn darllen dan arweiniad er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn deall cynnwys y testun ac yn cael cyfle i ddarllen.

-Bydd angen i'r dysgwyr 'defnyddio geiriau syml sy'n perthyn i'r pwnc mewn modd priodol' wrth ateb cwestiynau'r testun darllen a deall.

-Byddent yn 'dilyn a datblygu ar ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes' cyn dechrau ar y gwaith er mwyn iddynt wybod beth a ddisgwyllir.

-Dysgwyr yn 'dilyn strwythur yn eu gwaith ysgrifennu gyda chymorth, e.e. adroddiadau, rhestrï' (Llywodraeth Cymru, 2014) wrth greu bwydlen iachus.

Ffordd Ymlaen

Bwriadaf dros glwyddo'r sgiliau Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a ddatblygwyd o fewn y Meysydd Dysgu uchod i mewn i amryw o'r Meysydd Dysgu arall megis 'Datblygiad Corfforol'. Gan fod y thema yn seiliedig ar Fywyd Iachus, gwelaf yn hanfodol fod gan y dysgwyr ystod o brofiadau er mwyn datblygu eu hun yn gorfforol ac i ddechrau deall pwysigrwydd ymarfer corff. Gellir gwneud hyn, wrth gynnal trafodaethau grŵp ynglŷn â chadw'n heini, amseru curiad calon a chymharu effeithiolrwydd gwahanol ymarferion corfforol.

Model Pwnc Unigol Tros glwyddiadol

'Single transferable subject approaches aim to improve learning in a single subject by deliberately applying its perspective to a range of other curriculum areas' (Barnes, 2015, t. 68).

Bwriad y cyfres o wersi yma yw i alluogi'r dysgwyr i 'disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml' (YAAS, 2015) wrth ymgorffori ag amrywiaeth o cyd-destynau draws y cwricwlwm.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.

-Dysgwyr yn 'defnyddio allwedddeiriau i chwilio am wybodaeth benodol i ddatrys problem, e.e. teipio allwedddeiriau i beiriant chwilio ac esbonio sut y gall eu dewis o wefan helpu i ddatrys y problem' (Llywodraeth Cymru, 2016) er mwyn gallu cymharu eu hardal leol ac ardaloedd arall yng Nghymru.

-Y gallu i 'ddwyn i gof ac ail-ddweud naratifau a gwybodaeth o destunau gan gynnwys rhai manylion' am fywydau pobl o oes wahanol a'i gymharu gyda'i bywydau nhw nawr. Gellir mynd ymlaen i osod y gwahaniaethau i mewn i dabl neu greu ffeil o ffeithiau.

-Dysgwyr yn 'defnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy'n briodol i'r diben a'r darlennydd' wrth ysgrifennu dyddiadur rhywun o gyfnod y maent wedi'i ymchwilio iddi.

-Dysgwyr yn 'defnyddio unedau safonol i fesur' wrth ddysgu am bellter wrth ddilyn cyfarwyddiadau.


-Dysgwyr yn mesur amser gan 'darllen oriau a munudau ar gloc digidol 12 awr' a 'adnabod 'hanner awr wedi', 'chwarter wedi' a 'chwarter i' ar gloc analog'.

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

-Dysgwyr yn 'ailladrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir' gan osod digwyddiadau Hanesyddol mewn trefn.

-Dysgwyr yn 'ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr i ddarlennydd arall – gall y testun gynnwys manylion a lluniau' ac yn dechrau 'defnyddio ambell dreigladd y maent wedi ei ymarfer ar lafar, e.e. y bêl, fy mag, i'r dref' wrth ysgrifennu stori am sut mae gweithrediadau wedi niweidio'r amgylchedd.

-Dysgwyr yn gallu 'cymharu'r tymheredd dyddiol drwy ddefnyddio thermometr (°C)' ac adnabod sut mae hinsawdd yn gallu effeithio'r byd o'i chwmpas wrth 'cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad (Llywodraeth Cymru, 2014) '.



(Barnes, 2015)

Manteision

-Model yma yn galluogi i ddysgwyr gwneud cysylltiadau rhwng nifer o bynciau gwahanol o fewn y cwricwlwm.

-Adnabod sut all un sgil cwricwlaidd gael eu datblygu o fewn nifer o gyd-destunau gwahanol.

-Yn darparu safbwyntiau gwahanol a gwreiddiol gan fod cydosodiadau annisgwyl rhwng pynciau (Barnes, 2015).

Anfanteision

-Dim ond un sgil penodol sy'n cael eu datblygu o'r cwricwlwm.

-Gan fod dim ond un sgil sy'n cael eu datblygu, gall hyn atal sgiliau meddwl uwch o gael eu datblygu.

Ffordd Ymlaen

Gan fod dim ond un sgil sydd yn cael eu datblygu o'r cwricwlwm wrth ddefnyddio'r model yma, mae ofn fod y gweithgareddau ddim yn darparu sialens i'r dysgwyr. Er mwyn sicrhau fod y gweithgareddau yn gyfoethog, byddaf yn ychwanegu mwy o sgiliau i mewn i'r gweithgareddau. Bydd hyn yn sicrhau fod y dysgwyr yn datblygu amryw o sgiliau ac yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng sgiliau o fewn y cwricwlwm yn ogystal â gyda'i bywyd pob dydd. Fe fydd hyn, yn taro un o argymhellion Donaldson o ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion egwyddorol a gwybodus (Donaldson, 2015).



(Donaldson, 2015)



Argymhellir Donaldson (2015), fod gan pob athro a phobl sy'n gweithio gyda plant dealltwriaeth drylwyr o'r cwricwlwm er mwyn i'r tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd gael eu hwyluso yn effeithiol. Amlyga gan argymhell fod un athro o fewn yr ysgol yn arbennigo yn y tri Chyfrifoldeb Dysgu yr un (Donaldson, 2015).

Byddaf yn defnyddio strwythur Tacsonomeg Bloom wrth gwestiynnu o fewn fy ngwersi er mwyn hybu sgiliau meddwl uwch y disgyblion. Bydd hyn yn ymestyn dealltwriaeth y dysgwyr a alluogi iddynt feddwl tu allan i'r bocs wrth feddwl am atebion i gwestiynau agored (Bloom, 1956).

Rhestr gyfeiriadau

Ofsted (2002) *The Curriculum in Successful Primary Schools*. Ar gael yn:

<https://dera.ioe.ac.uk/4564/1/Curriculum%20in%20successful%20primary%20schools%20%28The%29%20%28PDF%20format%29.pdf> (Darllenwyd 01.12.18).

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ceardydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd*. Ar gael yn:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/?lang=cy> (Darllenwyd: 02.12.18).

Llywodraeth Cymru (2016) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. Ar gael yn:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/framework?lang=cy> (Darllenwyd: 02.12.18).

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2015) *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Ar gael yn:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf> (Darllenwyd: 02.12.18).

Barnes, J. (2015) *Cross-curricular learning 3-14* (3rd edition) London: SAGE